Ond anwybyddodd Iesu y neges, a dywedodd wrth arweinydd y synagog, “Paid ag ofni; dim ond credu” **(Marc 5:36)**

Dyma eiriau hyfryd o enau’r Gwaredwr, geiriau grasol a gobeithiol i ddyn oedd yn meddwl bod y cyfan ar ben cyn belled ag oedd iechyd ei ferch yn y cwestiwn. Ac mae’r hanes am Jairus a’i ferch yn dangos i ni **ofal tadol** a hefyd **ofal y Gwaredwr.**

Gofal tadol

Mae’r hanes yma’n dechrau gyda Jairus, arweinydd yn y synagog, yn dod at Iesu i geisio iachâd i’w ferch deuddeng mlwydd oed. Mae ef yn ei chynrychioli gerbron Iesu. Mae hyn yn ddarlun da o un person yn eiriol dros un arall gerbron Duw mewn gweddi. Mae Jairus yn esiampl i bob rhiant Cristnogol sut i gynrychioli eu plant wrth orsedd gras. Mae’n esiampl hefyd i Gristnogion sut i eiriol dros eraill, dros gymdogion, ffrindiau ac aelodau teuluol hefyd.

Nid yn unig gallwn eiriol dros rai sâl o gorff, ond gallwn weddïo dros eneidiau pobl eraill hefyd. Gallwn a dylem weddïo ar i’n plant a’n teuluoedd a’n ffrindiau gael iachâd ysbrydol gan yr Arglwydd. Os oedd yr Arglwydd Iesu’n gallu codi merch Jairus o farw’n fyw, gall godi rhai sydd yn feirw mewn camweddau a phechodau i fywyd newydd o berthynas bersonol gyda Duw yng Nghrist.

Doedd merch Jairus ddim yn ddigon iach i ddod gyda’i thad at Iesu, ac yn aml fydd pobl ddim yn ddigon iach i weddïo dros eu hiachawdwriaeth eu hunain.

Hefyd mae Jairus yn ceisio dod â Iesu at ei ferch. Mae hyn hefyd yn gyfrifoldeb ar rieni: **“Chwi dadau, peidiwch â chythruddo’ch plant, ond eu meithrin yn nisgyblaeth a hyfforddiant yr Arglwydd”** (Eff. 6:4).

Mae hefyd yn gyfrifoldeb ar eglwysi a Christnogion yn gyffredinol. Ein braint ni yw cyflwyno a chynnig Gwaredwr i’n cenhedlaeth. Gallwn wneud hyn trwy geisio gwahodd eraill i oedfa, Ysgol Sul neu gwrs efengylu. Gallwn gynnig Beibl, Testament, llyfrau neu bamffledi, yn ogystal â cheisio dweud gair personol o bryd i’w gilydd.

Gofal y Gwaredwr

Mae’r adnod a’r hanes yma’n dangos gofal ein Gwaredwr hefyd. Yn gyntaf, mae’n barod i ymateb i gais Jairus iddo fynd i’w gartref. Er bod yr Arglwydd Iesu’n treulio llawer o amser yn annerch cynulleidfa neu dyrfa, mae ganddo amser hefyd i unigolion. Yn Salm 121 dywedir bod yr Arglwydd yn geidwad

Israel, a hefyd “dy geidwad”, sef yn Geidwad personol.
Mae hyn yn esiampl i ni fel pobl yr Arglwydd. Er ein bod yn ysu am weld rhagor o bobl yn dod i’r capeli a’r eglwysi, rhaid i ni geisio cofio am yr unigolyn hefyd.

Yn ail, mae’r Arglwydd Iesu’n barod i addasu ei gynlluniau er mwyn gweinidogaethu i’r wraig a gyffyrddodd â’i fantell am iachâd. Er ei fod ar ei ffordd i gartref arweinydd y synagog, mae’n gwybod bod rhywun, sef y wraig fach yma, wedi cyffwrdd ag Ef mewn ffydd. Rhaid iddo aros i’w chynorthwyo hithau hefyd.

Mor hawdd fyddai i Iesu anwybyddu’r wraig hon, neu ei gadael heb gymorth pellach, oherwydd ei fod yn ateb galwad brys wrth fynd i weld merch Jairus. Mor hawdd fyddai colli’r cyfle i weinidogaethu i’r wraig fach yma. Faint o gyfleoedd rŷn ni wedi’u colli wrth fod ar daith ‘bwysig’, ac felly’n rhy brysur i roi sylw i rywun anghenus ar y ffordd?

Yn drydydd, mae Iesu’n adrodd geiriau’r adnod uchod wrth Jairus, ar ôl iddo dderbyn y neges ei bod yn rhy hwyr i wella ei ferch ac nad oedd angen poeni’r Athro bellach. Mae’n hyfryd clywed geiriau Crist yn cyhoeddi nad yw hi ddim yn rhy hwyr tra bod Ef wrth law a thra bod pobl yn troi ato.

Faint o bobl sydd yn poeni nad oes maddeuant iddynt oherwydd ei bod yn rhy hwyr? Efallai eu bod yn teimlo bod eu pechodau yn ormod ac yn rhy ddrwg i gael maddeuant. Ond mae gwaed Crist yn ein glanhau o bob pechod. Mae’n bosib i rai deimlo ei bod yn rhy hwyr iddyn nhw gael eu haileni. Mae nhw’n gweld amser yn mynd yn ei flaen, ond heb weld fawr o newid yn eu bywydau. Mae’r geiriau hyn yn addas iawn iddyn nhw. Mae gobaith i unrhyw bechadur anghenus wrth droi a chredu yng Nghrist.

Nid geiriau gwag oedd cysur Iesu i Jairus chwaith. O ganiatáu i Iesu ddod at y ferch farw, a wynebu chwerthin dirmygus y dyrfa oedd wedi ymgasglu o gwmpas ei gartref, cafodd ei ferch yn ôl yn fyw ac yn iach. Boed i hyn ein sbarduno yn ein gweddi a’n tystiolaeth heddiw!